
# Salm 100

## CÂN O LAWENYDD

Gwaeddwch yn uchel i'r ARGLWYDD holl bobl y byd!



Addolwch yr ARGLWYDD yn llawen; a dod o'i flaen gan ddathlu!



Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw; Fe ydy'r un a'n gwnaeth ni, a ni ydy ei bobl e – y defaid mae'n gofalu amdanyn nhw.



Ewch drwy'r giatiau gan ddiolch iddo, ac i mewn i'w deml yn ei foli! Rhowch ddiolch iddo! A bendithio ei enw!



Achos mae'r ARGLWYDD mor dda! Mae ei haelioni yn ddiddiwedd; ac mae'n aros yn ffyddlon o un genhedlaeth i'r llall.

